Hawdd ei Ddeall

# Ein Cynllun ni ar gyfer Cydraddoldeb 2020-2024

## Beth ddylen ni wneud i gael bwrdeistref sirol Caerffili yn lle tecach i fyw a gweithio ynddo fe?

## Rydyn ni eisiau barn chi



**Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl erbyn 6 Rhagfyr 2019**

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Ymgynghoriad Drafft i Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024'**

**Tachwedd 2019**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y bydd angen cefnogaeth, er hynny. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bod geiriau sydd mewn **glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn glas cyffredin. Gallwch chi edrych ar beth mae'n feddwl ar dudalen 17.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:


**Cyfeiriad:** **Gwasanaethau Gwella Busnes**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
**Tŷ Penallta, Parc Tredomen**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed, CF82 7PG**

**Gwefan:**
www.caerphilly.gov.uk/involved/Consultations/Strategic-Equality-Objectives-2020%E2%80%932024?lang=cy-gb

**E-bost:** equalities@caerphilly.gov.uk

**Ffôn:** 01443 864404


Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**


Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon........2

Cyflwyniad........4

Amcan cydraddoleb 1........5

Amcan cydraddoleb 2........7

Amcan cydraddoleb 3........9

Amcan cydraddoleb 4........10

Amcan cydraddoleb 5........12

Amcan cydraddoleb 6........14

Amcan cydraddoleb 7........16

Geiriau anodd........17

# Cyflwyniad

Rydyn ni wedi ysgrifennu ein **hamcanion cydraddoldeb** ni ar gyfer y 4 blynedd nesaf.



Mae **Amcanion Cydraddoldeb** yn bethau pwysig i'w gwneud er mwyn i fwrdeistref sirol Caerffili fod yn lle tecach i fyw a gweithio.




Rydyn ni wedi meddwl am ddeddfau ac adroddiadau pwysig ar gyfer ysgrifennu ein hamcanion cydraddoldeb ni.



Ac rydyn ni wedi meddwl sut y gall ein hamcanion cydraddoldeb ni ein helpu ni i gwrdd â'n dyletswydd ni i wneud Cymru yn lle tecach.



Rydyn ni am wybod beth rydych chi'n feddwl am ein saith amcan cydraddoldeb ni. A beth y dylen ni wneud i'w cyflawni.



Darllenwch y ddogfen hon. Ac yna llenwch y ffurflen ymateb erbyn **6 Rhagfyr 2019**.

# Amcan cydraddoleb 1

## Deall y rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth gael gwasanaethau a gobeithio cael gwared â'r rhwystrau



Mae **rhwystr** yn rhywbeth sy'n eich cadw chi'n ôl rhag gwneud rhywbeth neu gael rhywbeth. Er enghraifft, cael gwybodaeth dydych chi ddim yn ei deall neu dim cludiant i fynd i rywle.



Rydyn ni am wneud yn siŵr bod pawb sy'n byw ym mwrdeistref sirol Caerffili yn gallu cyrraedd ein gwasanaethau ni a'u defnyddio nhw.



Rydyn ni am wella'r pethau hyn yn ein gwasanaethau ni:

- addysg



- iechyd



- cartrefi
- gwasanaethau cymdeithasol



- cludiant.



Rydyn ni am roi'r gallu i wahanol fathau o bobl. Wedyn byddan nhw’n medru cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Mae hyn yn bwysig iawn i ni.



Byddwn yn dal ati i siarad â’r bobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau i ni gael dysgu am y rhwystrau maen nhw’n eu hwynebu.  Wedyn gallwn ni gael gwared â’r rhwystrau.

# Amcan cydraddoldeb 2

## Gwella addysg i bawb



Prif fwriad yr **amcan cydraddoldeb** hwn yw helpu pobl ym mwrdeistref sirol Caerffili gael gwaith gyda thâl.



Mae cael gwaith yn bwysig i bobl. Mae'n helpu i rwystro problemau y gall pobl eu hwynebu pan fydd ganddyn nhw ddim gwaith. Mae'n gallu gwneud drwg i'w hiechyd nhw a'u gwneud nhw'n unig.



Os bydd mwy o bobl ym mwrdeistref sirol Caerffili yn cael gwell addysg, hyfforddiant a gwaith, bydd ein cymunedau ni yn gryfach ac yn well.



Mae rhoi cefnogaeth i bobl gael medrau ar gyfer gwaith gyda thâl yn bwysig iawn ar gyfer yr holl wlad.

I’n helpu ni i gyflawni’r amcan cydraddoldeb hwn byddwn yn canolbwyntio ar:



- bobl ifanc sydd heb waith, hyfforddiant nac ysgol




- gweld pa fedrau pwysig rydyn ni’n brin ohonyn nhw yn yr ardal hon



- cael mwy o **brentisiaethau** a newid y ffordd y mae pobl yn ei deimlo ynglŷn â **phrentisiaethau**.

> **Prentisiaeth** yw pan fydd person yn dysgu medrau ar gyfer gwaith tra bydd yn gweithio. Fel arfer bydd pobl yn cael llai o dâl gan eu bod nhw'n dal i ddysgu.




Mae gennym ni gynllun hefyd sy’n cael ei alw’n **Strategaeth Uchelgais a Rennir 2019-2022**. Mae’r cynllun hwn yn dweud sut y byddwn ni’n gweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill - i helpu pobl i lwyddo mewn addysg.



Bydd y cynllun hwn yn ein helpu ni i wella addysg i bawb. A bydd yn ein helpu ni i gyflawni’r amcan cydraddoldeb hwn.

# Amcan cydraddoldeb 3

## Helpu i greu cymunedau sy'n gryf ac yn cynnwys pawb



Mae **cymuned** yn grŵp o bobl sy'n byw yn yr un lle neu sy'n gwneud yr un pethau. Er enghraifft, efallai mai'r un oed ydyn nhw neu'n credu yn yr un pethau.



Mae'n bwysig cael cymunedau cryf a hapus ble gall pobl fyw yn dda a chytuno â'i gilydd.



Dylai pobl deimlo eu bod nhw'n perthyn o fewn eu cymuned nhw.



A dylai pobl deimlo'n hapus i siarad â phobl a gwneud ffrindiau gyda phob mathau o bobl yn eu cymuned nhw.

# Amcan cydraddoldeb 4

## Gwneud yn siŵr bod pobl sy'n byw ym mwrdeistref sirol Caerffili yn cael rhoi eu barn nhw ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg



Rydyn ni eisiau i bobl sy'n byw ym mwrdeistref sirol Caerffili fod mor annibynnol â phosibl. A chael **llesiant** da.



Mae **llesiant** yn unrhyw beth sy'n ymwneud â'ch iechyd chi a'ch hapusrwydd chi.



Rydyn ni angen gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu dweud wrthyn ni beth sydd ei angen arnyn nhw. Rydyn ni am gefnogi pobl trwy:

- roi cyngor da



- rhoi gwybod iddyn nhw am wasanaethau a allai eu helpu nhw



- eu cefnogi nhw i weld beth sy'n bwysig iddyn nhw.




Mae’n rhaid i ni roi gwybodaeth i bobl mewn ffordd y gallan nhw ei deall hi.



Mae llawer o rwystrau yn dal i fod sy’n atal pobl rhag dweud wrthyn ni beth sydd ei angen arnyn nhw.

# Amcan cydraddoldeb 5

## Gwneud yn siŵr bod pobl sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg




Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod pobl yn cael gwasanaethau yn Gymraeg.




Rydyn ni'n gweithio i wneud yn siŵr bod staff yn ein holl wasanaethau ni yn gwybod bod Cymraeg a Saesneg yn bwysig.



Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i'n:



- helpu ni i gwrdd ag anghenion pobl sy'n siarad Cymraeg




- helpu ni i gwrdd â'r pethau y mae'r gyfraith yn dweud y mae'n rhaid i ni eu gwneud.

Rydyn ni’n gweithio gyda phartneriaid fel:

- Menter Iaith Caerffili



- Y Fforwm Iaith




- Ysgolion cyfrwng Cymraeg.




Mae mwy o wybodaeth am ein gwaith ni ar hyn yn ein cynllun ni sy’n cael ei alw’n **Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd 2017-2022**.

# Amcan cydraddoldeb 6

## Cael gweithwyr sy’n cynnwys pob math o wahanol bobl sy’n byw ym mwrdeistref sirol Caerffili



Rydyn ni eisiau gweld pob un o’r gwahanol fathau o bobl sy’n byw ym mwrdeistref sirol Caerffili yn gweithio i ni.



Rydyn ni eisiau i’n staff ni weithio mewn lleoedd sy’n ddiogel ac sy’n cynnwys pawb.



Rydyn ni eisiau i’n staff deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi.  Fel hyn byddan nhw’n rhoi’r gwasanaethau gorau i’r bobl sy’n byw ym mwrdeistref sirol Caerffili.



Byddwn yn casglu gwybodaeth am ein staff ni. Wedyn byddwn ni'n gallu deall pa fathau o bobl sy’n gweithio i ni. Byddwn ni'n diweddaru’r wybodaeth hon.




Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein staff ni yn cael eu trin yn deg. Bydd hyn yn ein helpu ni i gael staff newydd a chadw’r staff sydd gennym ni yn barod.



Byddwn ni'n rhoi hyfforddiant i’n staff ni sy’n ymwneud â chydraddoldeb a’r iaith Gymraeg. Bydd hyn yn eu helpu nhw i roi’r gwasanaethau gorau i bob math o wahanol bobl.

# Amcan cydraddoldeb 7

## Lleihau'r bwlch rhwng y tâl mae menywod yn ei gael a'r tâl mae dynion yn ei gael




Bob blwyddyn byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am y gwahaniaeth mewn tâl rhwng dynion a merched.



Dydyn ni ddim yn meddwl bod dynion a menywod yn cael eu talu'n wahanol pan fyddan nhw'n gwneud yr un gwaith.



Rydyn ni'n meddwl bod y gwahaniaeth mewn tâl rhwng dynion a menywod yn digwydd oherwydd bod ganddyn nhw wahanol fathau o waith.



Mae hon yn broblem gyda'n cymdeithas ni i gyd. Er enghraifft, menywod fel arfer sy'n dal i fod yn gyfrifol am ofalu am blant.




Mae hyn yn meddwl bod y rhan fwyaf o'n swyddi rhan-amser ni yn cael eu gwneud gan fenywod. Ac mae swyddi rhan-amser fel arfer yn talu llai..

# Geiriau anodd

## Amcanion cydraddoldeb

Mae Amcanion Cydraddoldeb yn bethau pwysig y rydyn ni angen eu gwneud nhw er mwyn i fwrdeistref sirol Caerffili fod yn lle tecach i fyw a gweithio.

## Cymuned

Cymuned yw grŵp o bobl sy’n byw yn yr un lle neu sy’n gwneud yr un pethau. Er enghraifft, efallai mai'r un oed ydyn nhw neu’n credu yn yr un pethau.

## Llesiant

Llesiant yn unrhyw beth sy’n ymwneud â’ch iechyd chi a’ch hapusrwydd chi.

## Rhwystr

Rhwystr yn rhywbeth sy’n eich cadw chi’n ôl rhag gwneud rhywbeth neu gael rhywbeth. Er enghraifft, cael gwybodaeth dydych chi ddim yn ei deall neu dim cludiant i fynd i rywle.